**Yr Ail Gynulliad**
**Cyfarfod Llawn (96)**

**Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mercher, 3 Tachwedd 2004**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf

**2.31pm**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf

**3.00pm**
**Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog er mwyn trafod y Cynnig o dan Eitem 4**
**NDM2149Karen Sinclair (De Clwyd)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 37.5 yn cytuno i atal Reol Sefydlog 6.13 er mwyn caniatáu i’r cynnig NNDM 2145 a gyflwynwyd ar 2 Tachwedd 2004, gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 3 Tachwedd 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y cynnig gyda’r mwyafrif angenrheidiol o 2/3**

**3.00pm**
**NNDM2145 Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn argymell bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn penodi Jeremy Colman yn Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.02pm**
**Dadl ar faterion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd yn unol â Rheol Sefydlog 6.6**
*NDM2143 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn croesawu'r cyfraniad a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad i'r ddadl ar Gytundeb Cyfansoddiadol yr UE a'i fod yn edrych ymlaen at chwarae rôl lawn yn y drafodaeth sydd i ddod ar y refferendwm;

2. Yn cydnabod y cynnydd a wnaed o ran cynnal proffil Ewropeaidd Cymru a'i dylanwad ymhlith y sefydliadau Ewropeaidd;

3. Yn croesawu bwriad Llywodraeth y Cynulliad i wneud cyfraniad grymus at lwyddiant y DU o ran Llywyddiaeth yr UE yn 2005; a

4. Yn croesawu rheolaeth lwyddiannus Llywodraeth y Cynulliad dros Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol, mentrau eraill yr UE a'i rôl arweiniol o ran sicrhau y fargen orau i Gymru yn sgil yr adolygiad sydd ar y gweill o bolisi rhanbarthol yr EU.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**

Dileu popeth ym mhwynt 1 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

'Yn croesawu'r penderfyniad i gynnal refferendwm ar Gytundeb Cyfansoddiadol yr UE.'

***Os pleidleisir o blaid gwelliant 1 bydd gwelliannau 2 a 3 yn syrthio***

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ym mhwynt 1 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

'Yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfrannu at y ddadl ar Gytundeb Cyfansoddiadol yr UE ac yn galw ar y Llywodraeth i chware rhan lawn yn y ddadl am y refferendwm y bwriedir ei chynnal yn y dyfodol.'

***Os pleidleisir o blaid gwelliant 2 bydd gwelliant 3 yn syrthio***

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ym mhwynt 1: Dileu’r gair ‘Lywodraeth’.

**Gwelliant 4 - David Melding (Canol De Cymru)**

Dileu popeth ym mhwynt 2 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

'Yn cydnabod yr angen i sefydlu proffil amlwg i Gymru, ac yn gresynu at y ffaith bod Cymru wedi'i hepgor o Fap Eurostat yn ddiweddar.'

***Os pleidleisir o blaid gwelliant 4 bydd gwelliant 5 yn syrthio***

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, ar ôl 'cydnabod y', ychwanegu'r gair 'diffyg'.

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ym mhwynt 3 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

'Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i wella proffil Cymru a thynnu sylw at faterion sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru yn ystod Llywyddiaeth y DU yn 2005.'

***Os pleidleisir o blaid gwelliant 6 bydd gwelliannau 7 a 8 yn syrthio***

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le: "Yn credu y dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud cyfraniad grymus at lwyddiant y DU o ran Llywyddiaeth yr UE yn 2005 gan ymgymryd â rôl arweiniol o ran sicrhau y fargen orau i Gymru yn sgil yr adolygiad sydd ar y gweill o bolisi rhanbarthol yr UE"

***Os pleidleisir o blaid gwelliant 7 bydd gwelliant 8 yn syrthio***

**Gwelliant 8 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

'ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i fanylu ar y cyfraniad y bwriedir ei wneud er mwyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fedru cynnal dadl yn ei gylch.'

**Gwelliant 9 - David Melding (Canol De Cymru)**

Dileu popeth ym mhwynt 4 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

'Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi methu â manteisio i'r eithaf ar raglenni cyfredol y cronfeydd strwythurol ac ar fentrau eraill yr UE ac yn gresynu at y ffaith ei bod wedi methu â dangos arweiniad wrth ddiogelu buddiannau Cymru ym mholisi rhanbarthol yr UE yn y dyfodol.'

***Os pleidleisir o blaid gwelliant 9 bydd gwelliannau 10 ac 11 yn syrthio***

**Gwelliant 10 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ym mhwynt 4 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

'Yn condemnio Llywodraeth y Cynulliad am ei methiannau wrth reoli Rhaglen gyfredol y Cronfeydd Strwythurol, ei methiant i sicrhau cyllid cyfatebol oddi wrth Drysorlys y DU, ei diffyg arweiniad yn ystod y trafodaethau a fydd yn arwain at gylch nesaf y Cronfeydd Strwythurol; ac yn galw ar Brif Weinidog Cymru i gefnogi cynigion y Comisiwn Ewropeaidd yn hytrach na rhai Trysorlys y DU.'

***Os pleidleisir o blaid gwelliant 10 bydd gwelliant 11 yn syrthio***

**Gwelliant 11 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le "Yn galw ar i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau y manteisir i'r eithaf ar yr hyn sy'n deillio o gylch presennol y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd"

**Gwelliant 12 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn derbyn mai dim ond pan fydd ganddi Senedd go iawn y bydd Cymru'n gallu gwella ei pherthynas ag Ewrop yn sylweddol a sicrhau bod ganddi broffil uwch a mwy o ddylanwad.'

**Gwelliant 13 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig: "Yn galw ar i'r llywodraeth esbonio pam y mae llinellau'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn y gyllideb yn dal ar linell wastad ar ôl i gyfnod presennol y cronfeydd strwythurol ddod i ben"

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 10; Ymatal 17; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 8**

**Gwelliant 9**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 9**

**Gwelliant 10**
O blaid 18; Ymatal 9; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 10**

**Gwelliant 11**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 11**

**Gwelliant 12**
O blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 12**

**Gwelliant 13**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd gwelliant 13**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig :**
O blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 57
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.16pm**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**4.16pm**
**Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol yn unol â Rheol Sefydlog 6.6**
*NDM2142 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rhan II o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 6.6, yn ystyried adroddiad blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ar gyfer 2003-2004, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 27 Hydref 2004.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod angen i'r Cyngor Partneriaeth baratoi strategaeth er mwyn lleihau lefelau'r Dreth Gyngor sy'n annerbyniol o uchel.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig: "Yn nodi'r difrod y mae cefnogaeth barhaus y llywodraeth i'r dreth gyngor wedi'i wneud i waith partneriaeth; treth sydd wedi'i chreu mewn modd sy'n arwain yn anorfod at gynnydd uwch na chwyddiant yn y dreth gyngor y mae awdurdodau lleol yn wynebu'r bai amdano"

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig: "Yn nodi'r difrod y mae methiant y llywodraeth i gyhoeddi goblygiadau llawn y broses ailbrisio ar yr un pryd wedi'i wneud i waith partneriaeth. Mae hyn wedi arwain at bryderon cynyddol ynglyn â'r effaith ar unigolion a chynghorau"

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O blaid 10; Ymatal 0; Yn erbyn 45; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 16; Ymatal 2; Yn erbyn 38; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.02pm**
**Dadl fer - NDM2141 Peter Black (Gorllewin De Cymru); Digartrefedd - yr Allgáu Cymdeithasol Gwaethaf**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.20pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 2 Tachwedd 2004**

- Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004 - LD3265
- Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004 - LD3264
- Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Diwygio)(Cymru) a Rheoliadau Awdurdodau Lleol Trefniadau Amgen (Diwygio)(Cymru) 2004 - LD3256
- Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru Adroddiad Blynyddol 2003-04 - LD3250

**Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 2 Tachwedd 2004**

- LC971 - Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 - LC3257
- LC972- Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub (Cychwyn) (Cymru) 2004 - LD3258
- LC973 - Rheoliadau Cynllun y Taliad Sengl ac Amrywiol Gynlluniau Cymorth Uniongyrchol (Apelau) (Cymru) 2004 - LD3259
- LC974 - Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD3260
- LC975 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD3261
- LC976 - Gorchymyn Deddf Dwr 2003 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2004 - LD3262
- LC967 - Gorchymyn Tatws o Wlad Pwyl (Hysbysu) (Cymru) 2004 - LD3263